Sant Bartholomeus: y ganrif gyntaf

Yr hwyaden fach fethedig

Gostyngeiddrwydd / cyfeillgarwch / dyfalbarhad

Ydych chi wedi gweld cywion hwyaid? Maen nhw'n bethau bach del iawn. Pan fydd y cywion yn deor o'r wyau byddan nhw'n gallu cerdded yn syth o'r nyth. Dyma hanes am gywion bach oedd yn ffrindiau efo sant.

Erbyn y bore roedd yr wyau i gyd wedi deor. Yn y nyth roedd deg o gywion bach melyn. Cododd yr hwyaden oddi ar y nyth. Galwodd ar y cywion bach, "Cwac, cwac." Yn araf, dechreuodd y cywion bach gerdded o'r nyth. Aeth y fam hwyaden o'u blaenau. Roedd hi'n awyddus iawn i ddangos ei theulu i Sant Bartholomeus. Roedd yn gwybod y câi groeso mawr gan y sant.

Newydd godi oedd Bartholomeus pan glywodd yr hwyaden yn galw, "Cwac, cwac, cwac." Bob bore byddai'n dod am frecwast at y sant. Edrychodd y sant trwy ffenest ei gaban,

"Wel ar fy ngwir," meddai, "fedra i ddim coelio fy llygaid. Deg o gywion bach. Y petha dela welais i erioed."

Agorodd Bartholomeus ddrws ei gaban. Roedd y fam hwyaden yn falch iawn o'i theulu bach. Bob bore ar ôl hynny byddai'n arwain y cywion o lan y dŵr at gaban y sant.

Sylwodd y sant fod un o'r cywion yn wahanol i'r lleill. Doedd o ddim yn gallu cerdded yn gyflym fel y lleill. Pan ddechreuodd y lleill hedfan, doedd y cyw bach hwn ddim yn gallu hedfan. Y fo oedd yr olaf i gyrraedd pob man.

Un bore daeth yr hwyaden a'i chywion yn ôl eu harfer. Roedd y cywion wedi tyfu erbyn hyn. Roedden nhw bron yr un maint â'u mam. Dod i ffarwelio oedden nhw. Roedden nhw'n cychwyn ar eu taith i wlad arall. Roedd y sant yn teimlo'n drist iawn o'u gweld yn gadael ac aeth yn ôl i'w gaban. Diolchodd i Dduw am yr hwyaid.

Ymhen ychydig ddyddiau roedd y sant allan yn yr ardd. Roedd yn fore braf heulog. Pwy welai'r sant yn hedfan drwy'r awyr? Y fam. Roedd hi wedi dod yn ôl. Beth oedd yn bod tybed? "Cwac, cwac," meddai wrth y sant a gafael yn ei wisg â'i phig. Dilynodd y sant hi dros y creigiau. Roedd yr hwyaden yn dal i dynnu ar wisg y sant. Roedd wedi blino'n lân erbyn hyn. Eisteddodd

am ychydig ar y glaswellt. Ond dal i dynnu ar ei wisg roedd yr hwyaden. Ymlaen â fo dros y creigiau. Erbyn hyn roedd wedi cyrraedd glan y dŵr. Stopiodd yr hwyaden wrth hollt yn y graig. Edrychodd Bartholomeus yn fanwl i mewn i'r hollt. Gwelai fod un o'r cywion wedi mynd yn sownd yno. Aeth ar ei fol ar y graig a thynnodd yr hwyaden fach o'r hollt.

"Wel," meddai wrtho'i hunan, "dyma'r hwyaden fach oedd ddim yn gallu cerdded na hedfan."

Safodd yr hwyaden fach ar y graig. Edrychodd o'i chwmpas. Roedd y cywion eraill wedi mynd. Dim ond y fam hwyaden oedd ar ôl. Aeth y fam hwyaden i fyny at y cyw oedd yn sefyll ar y graig. Cododd y cyw ar ei adain. Dilynodd y fam ef. Edrychodd Bartholomeus ar y ddau yn hedfan dros y dŵr.

"Gobeithio," meddai'r sant, "y byddan nhw'n cyrraedd yn saff. Gobeithio y byddan nhw'n dod yn ôl y flwyddyn nesaf." Cerddodd y sant yn araf deg dros y creigiau yn ôl i'w gaban. Roedd o'n teimlo'n hapusach y tro hwn. Roedd o'n hapus am ei fod wedi helpu'r cyw bach.

"Gofala'r Arglwydd am bawb sy'n ei garu."
Salm 145:20

O Dduw,
helpa fi i ofalu am bawb
sydd o'm cwmpas.
Amen.

Os ydych yn gweld cywion bach yn ystod y gwanwyn a'r rheiny wedi syrthio o'r nyth, beth ydych i fod i wneud efo nhw?